



(Cyhoeddwyd | Issued : 11/03/2024)

**DEDDF DRWYDDEDU 2003 | LICENSING ACT 2003**  
**TRWYDDED ANHEDDAU | PREMISES LICENCE**

Cyngor Sir **Ceredigion** County Council

Rhif trwydded | Premises licence number:

**PRM 0646 (Cyhoeddwyd | Issued: 11/03/2024)**

**Rhan 1 – Manylion am y safle | Part 1 - Premises details**

**Cyfeiriad post y safle, neu os nad oes un, cyfeirnod map ordnans neu ddisgrifiad:  
Postal address of premises, or if none, ordnance survey map reference or description:**

**UNDEB MYFYRWYR PRIFYSGOL ABERYSTWYTH / UNIVERSITY STUDENTS UNION  
PENGLAIS**

**Tref bost | Post town**

**ABERYSTWYTH**

**Côd Post | Post cod**

**SY23 3DX**

**Rhif ffôn | Telephone number**

**01970 621700**

**Os oes cyfyngiad ar yr amser, y dyddiadau | Where the licence is time limited the dates**  
**NID OES CYFYNGIADAU AMSER AR Y DRWYDDED**  
**PREMISES LICENCE IS NOT TIME LIMITED**

**Gweithgareddau trwyddedadwy a ganiateir gan y drwydded:  
Licensable activities authorised by the licence:**

**DRAMAU – Ty fewn / PLAYS – Indoors**

**FFILMIAU – Ty Fewn / FILMS – Indoors**

**CHWAREON DAN DO / INDOOR SPORTING EVENTS**

**CERDDORIAETH BYW – Ty Fewn / LIVE MUSIC – Indoors**

**CERDDORIAETH WEDI’U RECORDIO - Ty Fewn / RECORDED MUSIC - Indoors**

**UNRHYW BETH SY’N DEBYG I GERDDORIAETH FYW, CERDDORIAETH WEDI EI RECORDIO**

**NEU PERFFORMIADAU DAWNS | ANYTHING OF A SIMILAR NATURE TO LIVE MUSIC,  
RECORDED MUSIC OR PERFORMANCES OF DANCE**

**LLUNIAETH HWYR Y NOS | LATE NIGHT REFRESHMENT**

**ADWERTHU ALCOHOL – Ar Ac Oddi Ar Y Safle| SALE BY RETAIL OF ALCOHOL – On and Off  
Sales**

**Yr amseroedd y mae'r drwydded yn caniatáu cynnal gweithgareddau trwyddedadwy**  
**The times the licence authorises the carrying out of licensable activities**

**DRAMAU – Ty fewn / PLAYS – Indoors**  
**FFILMIAU – Ty Fewn / FILMS – Indoors**  
**CHWAREON DAN DO / INDOOR SPORTING EVENTS**  
**CERDDORIAETH BYW – Ty Fewn / LIVE MUSIC – Indoors**  
**CERDDORIAETH WEDI'U RECORDIO - Ty Fewn / RECORDED MUSIC - Indoors**  
**UNRHYW BETH SY'N DEBYG I GERDDORIAETH FYW, CERDDORIAETH WEDI EI RECORDIO**  
**NEU PERFFORMIADAU DAWNS | ANYTHING OF A SIMILAR NATURE TO LIVE MUSIC,**  
**RECORDED MUSIC OR PERFORMANCES OF DANCE**

**LLUNIAETH HWYR Y NOS | LATE NIGHT REFRESHMENT**

**ADWERTHU ALCOHOL – Ar Ac Oddi Ar Y Safle | SALE BY RETAIL OF ALCOHOL – On and Off Sales**

**YR HOLL WEITHREDOEDD UCHOD / ALL ABOVE FACILITIES**

**SUL / MAWRTH – SUN- TUES: 09:00 – 02:00**

**MERCHER / WEDS: 09:00 – 03:00**

**IAU - SAD/ THURS- SAT: 09:00 – 03:00**

**AMSERAU ANSAFONOL / NON-STANDARD TIMINGS**

**LLUNIAETH HWYR Y NOS | LATE NIGHT REFRESHMENT**

**ADWERTHU ALCOHOL | SALE BY RETAIL OF ALCOHOL**

**Digwyddiadau chwaraeon a gwleidyddol arwyddocaol ar y teledu sy'n cael eu cynnal y tu allan i'r oriau hyn i gynnwys pêl-droed mawr, criced, rygbi, athletau, pêl-droed Americanaidd, digwyddiadau bocsi rasys modur a nosweithiau etholiad. I AGOR 30 MUNUD CYN DECHRAU AC I GAU 30 MUNUD YN DILYN Y DIGWYDDIAD**

**Significant live televised sporting and political events which take place outside of these hours to include major football, cricket, rugby, athletics, american football, motor racing boxing events and election nights.**

**TO OPEN 30 MINUTES BEFORE COMMENCEMENT AND TO CLOSE 30 MINUTES FOLLOWING THE EVENT**

**Oriau agor y safle | The opening hours of the premises**

**LLUN – SUL / MON – SUN: 07:00 – 03:40**

**AMSERAU ANSAFONOL | NON-STANDARD TIMINGS:**

**Digwyddiadau chwaraeon a gwleidyddol arwyddocaol ar y teledu sy'n cael eu cynnal y tu allan i'r oriau hyn i gynnwys pêl-droed mawr, criced, rygbi, athletau, pêl-droed Americanaidd, digwyddiadau bocsi rasys modur a nosweithiau etholiad. I AGOR 30 MUNUD CYN DECHRAU AC I GAU 30 MUNUD YN DILYN Y DIGWYDDIAD**

**Significant live televised sporting and political events which take place outside of these hours to include major football, cricket, rugby, athletics, american football, motor racing boxing events and election nights.**

**TO OPEN 30 MINUTES BEFORE COMMENCEMENT AND TO CLOSE 30 MINUTES FOLLOWING THE EVENT**

**Os yw'r drwydded yn caniatáu cyflenwi alcohol, a yw hyn yn golygu ar gyfer yfed ar y safle neu oddi yno**

**Where the licence authorises supplies of alcohol whether these are on and/ or off supplies**

**AR AC ODDI AR Y SAFLE | ON AND OFF SALES**

**Enw, cyfeiriad (cofrestredig), rhif ffôn ac e-bost (os yw'n berthnasol) deilydd y drwydded safle | Name, (registered) address, telephone number and email (where relevant) of holder of premises licence**

**PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY  
PENBRYN  
PENGLAIS  
ABERYSTWYTH  
CEREDIGION  
SY23 3BY**

**Rhif cofrestredig y deilydd, er enghraifft rhif cwmni, rhif elusen (os yw'n berthnasol) Registered number of holder, for example company number, charity number (where applicable)**

**1145141**

**Enw, cyfeiriad a rhif ffôn Goruchwyliwr Safle dynodedig os yw'r drwydded safle yn caniatáu cyflenwi alcohol | Name, address and telephone number of designated premises supervisor where the premises licence authorises the supply of alcohol**

**THEO GOREE**

**Rhif trwydded bersonol ac enw'r awdurdod sy'n rhoi'r drwydded bersonol a ddelir gan y Goruchwyliwr Safle dynodedig os yw'r drwydded safle yn caniatáu cyflenwi alcohol Personal licence number and issuing authority of personal licence held by designated premises supervisor where the premises licence authorises for the supply of alcohol**

**CER 1617**

**CYNGOR SIR CEREDIGION / CYNGOR SIR CEREDIGION**

## **ATODIAD 1 - AMODAU GORFODOL**

### **1 Amodau gorfodol pan fydd trwydded yn awdurdodi cyflenwi alcohol**

- (1) Pan fydd trwydded safle'n awdurdodi cyflenwi alcohol, rhaid i'r drwydded gynnwys yr amodau canlynol.
- (2) Yr amod cyntaf yw na ellir cyflenwi alcohol dan y drwydded safle-
  - (a) ar adeg pan nad oes yna oruchwyliwr safle dynodedig yn unol â'r drwydded safle, neu
  - (b) ar adeg pan nad oes gan y goruchwyliwr safle dynodedig drwydded bersonol neu pan fydd ei drwydded bersonol wedi'i hatal.
- (3) Yr ail amod yw bod unrhyw alcohol a gyflenwir dan y drwydded safle'n gorfod cael ei gyflenwi neu'i awdurdodi gan berson sydd â thrwydded bersonol.

### **2 Amod gorfodol: dangos ffilmiau**

- (1) Pan fydd trwydded safle'n awdurdodi dangos ffilmiau, rhaid i'r drwydded gynnwys amod bod mynediad i blant pan fydd unrhyw ffilm yn cael ei dangos yn cael ei gyfyngu yn unol â'r adran hon.
- (2) Pan fydd y corff categoreiddio ffilmiau'n cael ei nodi yn y drwydded, oni bai bod is-adran (3)(b) yn berthnasol, rhaid cyfyngu mynediad i blant yn unol ag unrhyw argymhelliad a wneir gan y corff hwnnw.
- (3)
  - (a) pan nad yw'r corff categoreiddio ffilmiau wedi'i nodi yn y drwydded, neu
  - (b) pan fydd yr awdurdod trwyddedu wedi hysbysu deiliad y drwydded bod yr is-adran hon yn berthnasol i'r ffilm dan sylw, dylid cyfyngu mynediad i blant yn unol ag unrhyw argymhelliad a wneir gan yr awdurdod trwyddedu hwnnw.
- (4) Yn yr adran hon -  
Mae "plant" yn golygu pobl dan 18 oed; ac mae "corff categoreiddio ffilmiau" yn golygu'r person neu'r personau a ddynodwyd fel yr awdurdod dan adran 4 o Ddeddf Recordiadau Fideo 1984 (c.39) (yr awdurdod sy'n pennu addasrwydd ffilmiau fideo ar gyfer categoreiddio).

### **3 Amod gorfodol: goruchwyllo drysau**

- (1) Pan fydd trwydded safle'n cynnwys amod bod yn rhaid i un berson neu ragor fod ar yr eiddo ar adegau penodol i gwblhau gweithgaredd diogelwch, rhaid i'r drwydded gynnwys amod bod yn rhaid i unrhyw berson o'r fath feddu ar drwydded Awdurdod y Diwydiant Diogelwch.
- (2) Ond does dim byd yn is-adran (1) sy'n gofyn am osod amod o'r fath -
  - (a) ar gyfer safleoedd o fewn paragraff 8(3)(a) o Atodlen 2 Deddf y Diwydiant Diogelwch Preifat 2001 (c.12) (safleoedd gyda thrwyddedau safle sy'n awdurdodi dramâu neu ffilmiau, neu
  - (b) ar gyfer safleoedd mewn perthynas ag-
    - (i) unrhyw achlysur a grybwyllir ym mharagraff 8(3)(b) neu (c) o'r Atodlen honno (safleoedd sy'n cael eu defnyddio gan glwb sydd â thystysgrif safle clwb yn unig, dan hysbysiad digwyddiad dros dro sy'n awdurdodi dramâu neu ffilmiau, neu dan drwydded hapchwarae, neu
    - (ii) unrhyw achlysur o fewn paragraff 8(3)(d) o'r Atodlen honno (achlysuron a bennir gan reoliadau dan y Ddeddf honno).
- (3) At ddibenion yr adran hon -
  - (a) mae "gweithgaredd diogelwch" yn golygu gweithgaredd y mae paragraff 2(1)(a) o'r Atodlen honno'n berthnasol ar ei gyfer, a
  - (b) bod paragraff 8(5) o'r Atodlen honno (dehongli cyfeiriadau at achlysur) yn berthnasol, am ei fod yn berthnasol mewn perthynas â pharagraff 8 o'r Atodlen honno.

**Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) 2014**

**Yn effeithiol o 6 Ebrill 2014**

1. Rhaid i berson perthnasol sicrhau na chaiff unrhyw alcohol ei werthu na'i gyflenwi i'w yfed ar y safle nac oddi arno am bris sy'n llai na'r pris a ganiateir.
2. At ddibenion yr amod a nodir ym mharagraff 1-
  - (a) mae "treth" i'w dehongli yn unol â Deddf Trethi ar Ddiodydd Alcoholaidd 1979(6);
  - (b) "y pris a ganiateir" yw'r pris a geir drwy ddefnyddio'r fformiwla –
$$P = D + (D \times V)$$
pan mai –
    - (i) P yw'r pris a ganiateir
    - (ii) D yw cyfradd y dreth sy'n daladwy mewn perthynas â'r alcohol fel pe bai'r dreth yn cael ei chodi ar ddyddiad gwerthu neu gyflenwi'r alcohol, a
    - (iii) V yw cyfradd y dreth ar werth sy'n daladwy mewn perthynas â'r alcohol fel pe bai'r dreth ar werth yn cael ei chodi ar ddyddiad gwerthu neu gyflenwi'r alcohol
  - (c) ystyr "person perthnasol", mewn perthynas â safle lle y mae trwydded safle mewn grym, yw
    - (i) Deiliad y drwydded safle,
    - (ii) Goruchwylydd dynodedig y safle (os oes un) mewn perthynas â thrwydded o'r fath, neu
    - (iii) Deiliad trwydded bersonol sy'n cyflenwi alcohol o dan drwydded o'r fath neu sy'n caniatáu iddo gael ei gyflenwi;
  - (d) ystyr "person perthnasol", mewn perthynas â safle lle y mae tystysgrif safle clwb mewn grym, yw unrhyw un o aelodau neu swyddogion y clwb sy'n bresennol ar y safle mewn rôl sy'n galluogi'r aelod neu'r swyddog i atal y cyflenwad o dan sylw; ac
  - (e) ystyr "treth ar werth" yw treth ar werth sy'n daladwy yn unol â Deddf Treth ar Werth 1994(7)
3. Os nad yw'r pris a ganiateir a roddir gan Baragraff (b) o baragraff 2 (ar wahân i'r paragraff hwn) yn rhif cyfan o geiniogau, rhaid cymryd mai'r pris a roddir gan yr is-baragraff hwnnw yw'r pris a roddir mewn gwirionedd gan yr is-baragraff hwnnw wedi'i dalgrynnu i fyny i'r geiniog agosaf.
4. (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys os yw'r pris a ganiateir gan Baragraff (b) o baragraff 2 ar y naill ddiwrnod ("y diwrnod cyntaf") yn wahanol i'r pris a ganiateir ar y diwrnod nesaf ("yr ail ddiwrnod") o ganlyniad i newid i gyfradd y dreth neu'r dreth ar werth.  
  
(2) Mae'r pris a ganiateir sy'n gymwys ar y diwrnod cyntaf yn gymwys i werthiant neu gyflenwad alcohol sy'n digwydd cyn i'r cyfnod o 14 diwrnod sy'n dechrau ar yr ail ddiwrnod ddod i ben.

**Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) (Diwygio) 2014**

Mae'r Amodau Gorfodol isod yn **disodli** Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) 2010 a daethant i rym ar **1 Hydref 2014**.

**Mae amodau 1 i 4 yn cyfeirio at yr holl safleoedd sy'n gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed ar y safle. Mae amod 3 yn berthnasol i safleoedd sy'n gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle.**

1. (1) Rhaid i'r person cyfrifol sicrhau nad yw staff ar y safle perthnasol yn ymgymryd â, yn trefnu neu'n cymryd rhan mewn unrhyw hyrwyddo anghyfrifol mewn perthynas â'r safle.

(2) Yn y paragraff hwn, mae hyrwyddo anghyfrifol yn golygu un neu fwy o'r gweithgareddau a ganlyn, neu weithgareddau sy'n sylweddol debyg, sy'n digwydd er mwyn hyrwyddo gwerthiant neu gyflenwad o alcohol i'w yfed ar y safle -

(a) gemau neu weithgareddau eraill sy'n gofyn am neu'n hybu, neu sydd wedi'u dylunio i ofyn neu i hybu unigolion i -

(i) yfed swm o alcohol o fewn cyfyngiad amser (heblaw yfed alcohol a werthwyd neu a gyflenwyd ar y safle cyn terfyn y cyfnod y mae'r unigolyn cyfrifol wedi'i awdurdodi i werthu neu gyflenwi alcohol), neu

(ii) yfed cymaint o alcohol â phosib (un ai mewn cyfyngiad amser neu fel arall);

(b) darparu swm diddiwedd neu amhenodol o alcohol am ddim neu am bris penodedig neu ar ddisgownt i'r cyhoedd neu i grŵp a gaiff ei ddiffinio gan nodwedd benodol sy'n peri risg sylweddol o danseilio amcan trwyddedu;

(c) darparu alcohol am ddim neu ar ddisgownt neu unrhyw beth arall fel gwobr i annog neu i wobrwyo prynu ac yfed alcohol dros gyfnod o 24 awr neu lai mewn modd sy'n peri risg sylweddol o danseilio amcan trwyddedu;

(d) gwerthu neu gyflenwi alcohol mewn cysylltiad â phosteri neu bamffledi ar, neu yng nghyffiniau'r safle, a ellir ei ystyried yn rhesymol fel ei fod yn caniatáu, neu'n annog neu'n cyfeirio at effeithiau meddwdod ac ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn modd ffafriol;

(e) unigolyn yn tywallt alcohol yn uniongyrchol i geg unigolyn arall (heblaw pan fo unigolyn yn methu yfed heb gymorth oherwydd anabledd).

2. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau fod dŵr yfed am ddim yn cael ei ddarparu ar gais i gwsmeriaid pan fod hyn ar gael yn rhesymol.

3. (1) Rhaid i ddeilydd y drwydded eiddo neu ddeilydd y dystysgrif eiddo clwb sicrhau y gweithredir polisi gwirio oed ar y safle mewn perthynas â gwerthu neu gyflenwi alcohol.

(2) Rhaid i oruchwyliwr dynodedig y safle mewn perthynas â'r drwydded eiddo sicrhau bod gwerthiant alcohol ar y safle yn digwydd yn unol â'r polisi gwirio oed.

(3) Rhaid i'r polisi fynnu bod unigolion sy'n edrych dan 18 oed i'r person cyfrifol (neu'r oed hŷn a nodir yn y polisi) ddangos ar gais, cyn cael prynu alcohol, tystiolaeth yn cynnwys eu llun, dyddiad geni a naill ai -

(a) marc holograffig, neu

(b) nodwedd uwchfioled.

4. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau -

(a) os caiff unrhyw un o'r diodydd alcoholig canlynol eu gwerthu neu eu cyflenwi i'w hyfed ar y safle (heblaw am ddiodydd alcohol sy'n cael eu gwerthu neu eu cyflenwi ar ôl eu gwneud yn barod i'w gwerthu mewn cynhwysydd wedi'i gau'n ddiogel), bydd yr alcohol ar werth i gwsmeriaid yn y mesurau a ganlyn -

(i) cwrw neu seidr: ½ pint;

(ii) jin, rym, fodca neu wisgi: 25 ml neu 35 ml; a

(iii) gwin llonydd mewn gwydryn: 125 ml;

(b) caiff y mesurau hyn eu dangos mewn bwydlen, ar restr brisiau neu ddeunydd printiedig arall sydd ar gael i gwsmeriaid ar y safle; a

(c) lle nad yw cwsmer, mewn perthynas â gwerthiant alcohol, yn manylu ar y swm o alcohol i'w werthu, bydd y gwerthwr yn hysbysu'r cwsmer fod y mesurau hyn ar gael.

## **Annex 1 - MANDATORY CONDITIONS**

### **1 Mandatory conditions where licence authorises supply of alcohol**

- (1) Where a premises licence authorises the supply of alcohol, the licence must include the following conditions.
- (2) The first condition is that no supply of alcohol may be made under the premises licence-
  - (a) at a time when there is no designated premises supervisor in respect of the premises licence, or
  - (b) at a time when the designated premises supervisor does not hold a personal licence or his personal licence is suspended.
- (3) The second condition is that every supply of alcohol under the premises licence must be made or authorised by a person who holds a personal licence.

### **2 Mandatory condition: exhibition of films**

- (1) Where a premises licence authorises the exhibition of films, the licence must include a condition requiring the admission of children to the exhibition of any film to be restricted in accordance with this section.
- (2) Where the film classification body is specified in the licence, unless subsection (3)(b) applies, admission of children must be restricted in accordance with any recommendation made by that body.
- (3) Where-
  - (a) the film classification body is not specified in the licence, or
  - (b) the relevant licensing authority has notified the holder of the licence that this subsection applies to the film in question, admission of children must be restricted in accordance with any recommendation made by that licensing authority.
- (4) In this section - "children" means persons aged under 18; and "film classification body" means the person or persons designated as the authority under section 4 of the Video Recordings Act 1984 (c.39) (authority to determine suitability of video works for classification).

### **3 Mandatory condition: door supervision**

- (1) Where a premises licence includes a condition that at specified times one or more individuals must be at the premises to carry out a security activity, the licence must include a condition that each such individual must be licensed by the Security Industry Authority.
- (2) But nothing in subsection (1) requires such a condition to be imposed-
  - (a) in respect of premises within paragraph 8(3)(a) of Schedule 2 to the Private Security Industry Act 2001 (c.12) (premises with premises licenses authorising plays or films), or
  - (b) in respect of premises in relation to-
    - (i) any occasion mentioned in paragraph 8(3)(b) or (c) of that Schedule (premises being used exclusively by club with club premises certificate, under a temporary event notice authorising plays or films or under a gaming licence), or
    - (ii) any occasion within paragraph 8(3)(d) of that Schedule (occasions prescribed by regulations under that Act).
- (3) For the purposes of this section-



- (a) "security activity" means an activity to which paragraph 2(1)(a) of that Schedule applies, and
- (b) paragraph 8(5) of that Schedule (interpretation of references to an occasion) applies as it applies in relation to paragraph 8 of that Schedule.

### **The Licensing Act 2003 (Mandatory Licensing Conditions) Order 2014**

#### **With effect from 28<sup>th</sup> May 2014**

1. A relevant person shall ensure that no alcohol is sold or supplied for consumption on or off the premises for a price which is less than the permitted price.
2. For the purposes of the condition set out in paragraph 1-
  - (a) "duty" is to be construed in accordance with the Alcoholic Liquor Duties Act 1979;
  - (b) "permitted price" is the price found by applying the formula –
$$P = D + (D \times V)$$
where –
    - (i) P is the permitted price
    - (ii) D is the rate of duty chargeable in relation to the alcohol as if the duty were charged on the date of the sale or supply of the alcohol, and
    - (iii) V is the rate of value added tax chargeable in relation to the alcohol as if the value added tax were charged on the date of the sale or supply of the alcohol
  - (c) "relevant person" means, in relation to premises in respect of which there is in force a premises licence –
    - (i) The holder of the premises licence,
    - (ii) The designated premises supervisor (if any) in respect of such a licence, or
    - (iii) The personal licence holder who makes or authorises a supply of alcohol under such a licence;
  - (d) "relevant person" means, in relation to premises in respect of which there is in force a club premises certificate, any member or officer of the club present on the premises in a capacity which enables the member or officer to prevent the supply in question; and
  - (e) "valued added tax" means value added tax charged in accordance with the Value Added Tax Act 1994
3. Where the permitted price given by Paragraph (b) of paragraph 2 would (apart from this paragraph) not be a whole number of pennies, the price given by that sub-paragraph shall be taken to be the price actually given by that sub-paragraph rounded up to the nearest penny.

4. (1) Sub-paragraph (2) applies where the permitted price by Paragraph (b) of paragraph 2 on a day (“the first day”) would be different from the permitted price on the next day (“the second day”) as a result of a change to the rate of duty or value added tax.

(2) The permitted price which would apply on the first day applies to sales or supplies of alcohol which take place before the expiry of the period of 14 days beginning on the second day.

### **The Licensing Act 2003 (Mandatory Licensing Conditions) (Amendment) Order 2014**

The below Mandatory Conditions **replace** the Licensing Act 2003 (Mandatory Licensing Conditions) Order 2010 and comes into effect **on 1<sup>st</sup> October 2014**

**Conditions 1 to 4 refer to all premises that sell or supply alcohol for consumption on the premises. Condition 3 is relevant to Premises that sell for consumption off the premises.**

1. (1) The responsible person must ensure that staff on relevant premises do not carry out, arrange or participate in any irresponsible promotions in relation to the premises.

(2) In this paragraph, an irresponsible promotion means any one or more of the following activities, or substantially similar activities, carried on for the purpose of encouraging the sale or supply of alcohol for consumption on the premises—

(a) games or other activities which require or encourage, or are designed to require or encourage, individuals to—

(i) drink a quantity of alcohol within a time limit (other than to drink alcohol sold or supplied on the premises before the cessation of the period in which the responsible person is authorised to sell or supply alcohol), or

(ii) drink as much alcohol as possible (whether within a time limit or otherwise);

(b) provision of unlimited or unspecified quantities of alcohol free or for a fixed or discounted fee to the public or to a group defined by a particular characteristic in a manner which carries a significant risk of undermining a licensing objective;

(c) provision of free or discounted alcohol or any other thing as a prize to encourage or reward the purchase and consumption of alcohol over a period of 24 hours or less in a manner which carries a significant risk of undermining a licensing objective;

(d) selling or supplying alcohol in association with promotional posters or flyers on, or in the vicinity of, the premises which can reasonably be considered to condone, encourage or glamorise anti-social behaviour or to refer to the effects of drunkenness in any favourable manner;

(e) dispensing alcohol directly by one person into the mouth of another (other than where that other person is unable to drink without assistance by reason of disability).

2. The responsible person must ensure that free potable water is provided on request to customers where it is reasonably available.

3. (1) The premises licence holder or club premises certificate holder must ensure that an age verification policy is adopted in respect of the premises in relation to the sale or supply of alcohol.

(2) The designated premises supervisor in relation to the premises licence must ensure that the supply of alcohol at the premises is carried on in accordance with the age verification policy.

(3) The policy must require individuals who appear to the responsible person to be under 18 years of age (or such older age as may be specified in the policy) to produce on request, before being served alcohol, identification bearing their photograph, date of birth and either—

- (a) a holographic mark, or
- (b) an ultraviolet feature.

**4.** The responsible person must ensure that—

(a) where any of the following alcoholic drinks is sold or supplied for consumption on the premises (other than alcoholic drinks sold or supplied having been made up in advance ready for sale or supply in a securely closed container) it is available to customers in the following measures—

- (i) beer or cider: ½ pint;
- (ii) gin, rum, vodka or whisky: 25 ml or 35 ml; and
- (iii) still wine in a glass: 125 ml;

(b) these measures are displayed in a menu, price list or other printed material which is available to customers on the premises; and

(c) where a customer does not in relation to a sale of alcohol specify the quantity of alcohol to be sold, the customer is made aware that these measures are available.”

## Atodiad 2 – Amodau sy'n gyson â'r Atodlen Weithredu

### a) Cyffredinol

Bydd y trwyddedai yn sicrhau trefn ac ymddygiad da ar y safle trwyddedig a bydd y goruchwylwyr o blith y staff yn galw Tîm Diogelwch y Brifysgol a/neu'r Heddlu os ydynt o'r farn bod angen iddynt wneud hyn. Mae Goruchwylwr Dynodedig y Safle wedi'i gofrestru ag Awdurdod y Diwydiant Diogelwch ac mae wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf. Hefyd, bydd nifer fawr o swyddogion cymorth cyntaf sydd wedi'u hyfforddi ar gael ar y safle. Bydd mesurau rheoli ar waith bob amser, fel y nodir isod, i sicrhau nad yw plant yn dod i gysylltiad ag unrhyw weithgareddau anaddas.

### b) Atal troseddau ac anhrefn

Mae Undeb y Myfyrwyr yn aelod o Gynllun Gwarchod Tafarndai Aberystwyth a'r Cynllun 'Bihafiwrch neu Cewch eich Banio' a bydd yn parhau'n aelod yn y dyfodol. Hefyd, mae gan yr Undeb gysylltiadau radio uniongyrchol â thîm diogelwch 24 awr y Brifysgol rhag ofn y bydd angen uwchgyfeirio unrhyw bryderon a bydd yr Undeb yn parhau i gynnal perthynas dda â'r Heddlu lleol.

Ni chaniateir mwy na 1100 o bobl yn yr adeiladau h.y. dim mwy na 500 yn yr ystafell achlysuron, dim mwy na 550 o bobl yn ardal y lolf a dim mwy na 50 o bobl yn 'Y Stryd'. Bydd system Teledu Cylch Cyfyng ar waith fel a ganlyn:-

- Bydd y lluniau fideo o ansawdd da ac o allu perfformiad safonol a fydd yn ddigon manwl i adnabod unigolion.
- Bydd yr holl luniau fideo mewn lliw.
- Caiff yr holl luniau fideo yn ystod cyfnod y gweithgareddau trwyddedadwy eu cadw am gyfnod o 30 diwrnod.
- Bydd y system Teledu Cylch Cyfyng yn weithredol drwy'r amser ac os bydd unrhyw ddiffygion yn codi, rhaid i'r heddlu gael gwybod a rhaid gwneud trefniadau i unioni'r diffygion.
- Os gwneir cais amdanynt, bydd yr holl luniau fideo ar gael i swyddog yr heddlu eu gweld a bydd copi o'r lluniau fideo hyn ar gael ar unwaith i swyddog yr heddlu.
- Bydd person cymwys ar y safle a fydd yn gallu ymateb ac ymgymryd â'r gwaith o drosglwyddo recordiadau yn gyflym i gyfrwng storio symudol, o 2000 awr ymlaen.

Goruchwylwyr Drws – trefniadau adeg y tymor – Bydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth, drwy'r tîm rheoli, gan ymgynghori â Goruchwylwr Dynodedig y Safle, yn darparu goruchwylwyr drws ar gyfer digwyddiadau ac adloniant penodol. Yn gyffredinol, bydd y gofyniad hwn yn ôl disgrisiwn Goruchwylwr Dynodedig y Safle a fydd yn gwneud penderfyniad fel y bo'n briodol ynghylch yr angen am oruchwylwyr drws, gan ystyried yr asesiad risg generig ar gyfer

digwyddiadau penodol. Mae trefniadau mwy penodol ar waith ar gyfer digwyddiadau sy'n fwy proffil uchel e.e. Hwyl Haf, Dawns Fai Undeb y Myfyrwyr, ac ati.

Goruchwylwyr Drws – trefniadau y tu allan i'r tymor – yn seiliedig ar y nifer sy'n bresennol pan ddarperir digwyddiadau cerddoriaeth fyw a / neu gerddoriaeth wedi'i recordio sy'n agored i'r cyhoedd, bydd y gymhareb ganlynol yn berthnasol:

1 – 200 o gwsmeriaid: 3 aelod o staff ar y drws sydd wedi'u cofrestru ag Awdurdod y Diwydiant Diogelwch

201 – 400 o gwsmeriaid: 4 aelod o staff ar y drws sydd wedi'u cofrestru ag Awdurdod y Diwydiant Diogelwch

401 – 600 o gwsmeriaid: 5 aelod o staff ar y drws sydd wedi'u cofrestru ag Awdurdod y Diwydiant Diogelwch

601 – 800 o gwsmeriaid: 6 aelod o staff ar y drws sydd wedi'u cofrestru ag Awdurdod y Diwydiant Diogelwch

801 – 1000 o gwsmeriaid: 7 aelod o staff ar y drws sydd wedi'u cofrestru ag Awdurdod y Diwydiant Diogelwch

1011 – 1100 o gwsmeriaid: 8 aelod o staff ar y drws sydd wedi'u cofrestru ag Awdurdod y Diwydiant Diogelwch

Ar gyfer achlysuron preifat, bydd yr Undeb yn creu contract unigol â'r sawl sydd wedi llogi ystafell, gan nodi nifer y staff cymwys sydd wedi'u cofrestru ag Awdurdod y Diwydiant Diogelwch a fydd yn bresennol.

### **c) Diogelwch y cyhoedd**

Mae gan Undeb y Myfyrwyr Bolisi lechyd a Diogelwch cynhwysfawr gan gynnwys Cynllun Gadael mewn Argyfwng ac Asesiad Risg Tân. Mae copiâu o'r rhain ar gael y tu ôl i'r bar fel y gellid eu harchwilio. Bydd staff cymwys sydd wedi'u hyfforddi ym maes cymorth cyntaf yn bresennol yn ystod y gweithgareddau trwyddedadwy, yn ôl disgrisiwn deiliad y drwydded. Mae tu allan yr adeilad wedi'i oleuo'n dda sy'n caniatáu i bobl gyrraedd a gadael yr adeilad yn ddiogel. Mae pecynnau cymorth cyntaf cynhwysfawr ar gael yn hwylus mewn dau leoliad, y tu ôl i'r bar ac yn y man lle darperir lluniaeth hwyr y nos, ac mae'r rhain yn cael eu cynnal a'u cadw'n rheolaidd. Mae yswiriant atebolrwydd cyhoeddus mewn grym a bydd hyn yn cael ei gynnal am gyfnod amhenodol. Mae copi o'r dystysgrif ynghyd â rhestr gyfredol o'r holl swyddogion cymorth cyntaf cymwys i'w gweld ar yr hysbysfwrdd y tu allan i'r swyddfa gyllid.

### **d) Atal niwsans cyhoeddus**

Mae lleoliad adeilad Undeb y Myfyrwyr ar y campws yn golygu nad oes neb yn byw yn barhaol gerllaw. Mae biniâu sbwriel yn cael eu darparu y tu allan i'r adeilad ac maent yn cael eu cynnal a'u cadw'n rheolaidd. Gofynnir i gwsmeriaid sy'n gadael y safle barchu trigolion lleol a pheidio â gwneud gormod o sŵn. Mae arwyddion Cymraeg a Saesneg sy'n nodi hyn wedi'u lleoli wrth allanfeydd yr adeilad.

**e) Amddiffyn plant rhag niwed**

O dan amgylchiadau arferol, mae pob myfyriwr yn 18 oed neu'n hŷn ac maent yn cario cerdyn adnabod Myfyriwr. Bydd y Brifysgol yn rhoi gwybod i Undeb y Myfyrrwyr am unrhyw fyfyrwr sydd o dan 18 oed. Yn ystod hyfforddiant cychwynnol y staff, bydd pob aelod o staff yn cael gwybod am eu cyfrifoldeb o ran gofyn am brawf oedran lle bo unrhyw amheuaeth yn bodoli er mwyn atal plant rhag prynu neu yfed alcohol. Bydd hyfforddiant hefyd yn cael ei roi yn fewnol i helpu staff i adnabod cwsmeriaid sydd o dan oed a'r rhai nad ydynt yn fyfyrwr ac i nodi cardiaid adnabod a gydnabyddir yn genedlaethol. Bydd yr holl hyfforddiant yn cael ei gofnodi a bydd copiâu o'r cofnod hyfforddiant ar gael i'w harchwilio yn swyddfa'r bar. Bydd mynediad i ddiwyddiadau cerddoriaeth byw a cherddoriaeth sydd wedi'i recordio yn cael ei oruchwylio gan staff y drws fel y nodir yn b) uchod.

## **Annex 2 - Conditions consistent with the operating Schedule**

### **a) General**

The licensee shall maintain good order and decent behaviour within the licensed premises and staff supervisors will call University Security and/or the Police if they believe it to be necessary. The DPS is SIA registered and first aid trained and a high level of trained first aiders will be maintained. There will always be controls in place, as below to ensure children and not exposed to any unsuitable activities.

### **b) The prevention of crime and disorder**

The Students' Union is a member of the Aberystwyth Pubwatch scheme and 'Behave or be Banned' Scheme and will continue its membership in the future. The Union also has direct radio links to the University 24 hour Security team in case of the need for escalation and will continue to maintain a good relationship with the local Police.

The maximum capacity in the buildings is 1100 i.e. Function room 500, Lounge area 550, The Street 50. A CCTV system will be operated as follows:-

- All footage to be of good quality and of a minimum performance capability sufficient to identify individuals.
- All footage in colour
- All footage during the duration of the licensable activities to be retained for a period of 30 days
- CCTV system will operate continuously, and if a defect arises the police must be informed and arrangements made to rectify fault
- All footage available on demand to a police officer for viewing and a copy of that footage made immediately to a police officer
- A competent person will be on the premises capable of reply and being able to undertake the export of recordings quickly onto a removable storage medium from 2000hrs

Door Supervision – Term time arrangements – Aberystwyth University Students' Union will, via its management team, and in agreement with the Designated Premises Supervisor, provide door supervisors in respect of certain events and entertainment. That requirement is generally left to the discretion of the DPS who will make a decision as appropriate as to the need for door supervisors having regard to the generic risk assessment for given events. More specific arrangements are in place for the more high profile events e.g., Mid Mad, Students Union May Ball etc.

Door Supervision – Out of Term arrangements – based on the occupancy during the provision of live and/or recorded music events open to the public, the following SIA ratio to customers will apply.

Customers 1 – 200: 3 registered SIA door staff

Customers 201 – 400: 4 SIA registered doorstaff

Customers 401 – 600: 5 SIA registered doorstaff

Customers 601 – 800: 6 SIA registered doorstaff

Customers 801 – 1000: 7 SIA registered doorstaff

Customers 1011 – 1100: 8 SIA registered doorstaff

For privately booked functions the Union will contract with each individual private booking, the number of SIA qualified staff in attendance.

**c) Public safety**

The Students' Union has a comprehensive Health and Safety Policy, including an Emergency Evacuation Plan and Fire Risk Assessment, copies of which are available behind the bar for inspection. Qualified first aid trained staff will be present during licensable activities at the discretion of the licence holder. The building is well lit externally allowing safe arrival and departure from the premises. Comprehensive first aid kits are readily available in two locations, behind the bar and in the late night refreshment area, and these are regularly maintained. Public liability insurance is in force and will be maintained indefinitely. A copy of the certificate together with a current list of all qualified first aiders is in display on a notice board outside the finance office.

**d) The prevention of public nuisance**

The Students' Union building's location on campus means that there are no permanent residences nearby. Litter bins are provided outside the building and are regularly maintained. Customers leaving the premises are asked to respect local residents and not make excessive noise, via signs in Welsh and English located at the exits to the building.

**e) The protection of children from harm**

Under normal circumstances all students are 18 years or older and carry student ID. The University will notify the Students' Union of any student who is under 18 years of age. During their initial training all staff are made aware of their responsibility to request proof of age where any doubt exists in order to prevent children from purchasing or consuming alcohol. Training will also be given in house to help staff identify under age non-student customers and nationally recognised ID cards. All training will be recorded with training record copies available for inspection in the bar office. Entrance to live and recorded music events will be supervised by door staff as described in b) above.



**Atodiad 3 – Amodau yn atodedig yn sgil gwrandawriad gan yr awdurdod trwyddedu/cyfarfod cyfryngu**

**Annex 3 - Conditions attached after a hearing by the licensing authority/ Mediation meeting**

**Atodiad 4 – Cynlluniau | Annex 4 – Plans**



